

# *2 x Cynhyrchydd Creadigol*

Mae Gŵyl Fwyd Sain Ffagan yn ddigwyddiad dau ddiwrnod i'r teulu cyfan sy'n dathlu bwyd a diod o Gymru, cynaliadwyedd ac adloniant. Bydd yr ŵyl eleni yn cael ei chynnal ar 12 ac 13 Medi 2026.

Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru (ACPs) sydd wedi bod yn trefnu'r gerddoriaeth ar gyfer yr ŵyl ers 2021. Erbyn hyn mae dros 50 o artistiaid a bandiau newydd o Gymru wedi perfformio yn yr ŵyl, mewn amrywiaeth o leoliadau.

Rydyn ni'n cynnig: **dwy rôl Cynhyrchydd Creadigol** i gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu rhaglen adloniant 'pop-up' ac 'unplugged' ar draws y lleoliad. Bydd yr ACPs yn gweithio gyda'r tîm Digwyddiadau i gydgynllunio rhaglen o gerddorion, perfformwyr ac artistiaid Cymreig. Gall hyn gynnwys cerddoriaeth, barddoniaeth, dawns, theatr a mwy.

Gan fod hwn yn ddigwyddiad awyr agored, rydyn ni am ddatblygu rhaglen adloniant hyblyg all ymateb i newid, gan newid elfennau ar y diwrnod yn dibynnu ar y tywydd, y gynulleidfa ac amodau'r safle, ar ôl trafod gda'r tîm digwyddiadau. Rydyn ni'n chwilio am bobl greadigol, amrywiol, sy'n gallu cydweithio a chydbwyso arbrofi artistig gyda gofynion ymarferol gweithio mewn amgueddfa awyr agored yn ystod digwyddiad prysur.

Mae'r Ŵyl Fwyd yn cynnig rhaglen ddwyieithog gyda chydbwysedd o arlwy Cymraeg a Saesneg. Bydd angen i'r perfformiadau adlewyrchu hyn.

Eich gwaith:

- Gweithio fel tîm dan arweiniad y tîm Digwyddiadau ehangach
- Mynychu a chynnal cyfarfodydd rheolaidd
- Dod â phobl greadigol ynghyd i gydweithio i gynnal perfformiadau
- Trefnu gweithdy/sesiwn gydweithredol i artistiaid ar y safle i ddatblygu perfformiadau
- Cysylltu ag artistiaid, contractau, lleoliadau
- Datblygu amserlenni perfformio ar gyfer y cerddorion sy'n cydfynd â gweddill y rhaglen ddigwyddiadau
- Bod ar y safle yn ystod yr ŵyl i gefnogi'r gwaith o gynnal perfformiadau dros y penwythnos. Mae profiad o fantais, ond ddim yn hanfodol.

Gallwn ni gynnig trefniadau gweithio hyblyg, gan weithio gyda chi i greu amserlen sy'n gweithio i chi, ac yn cynnig y cyfle i weithio gartref. Fodd bynnag, mae yna rai diwrnodau cyn ac yn ystod y digwyddiad lle bydd gofyn i chi fod ar y safle drwy'r dydd.

Rhaid i chi allu teithio i'r gwaith yn Amgueddfa Sain Ffagan. Dydyn ni ddim yn cynnig treuliau i deithio i'r prif leoliad gwaith, ond gallwch chi hawlio treuliau i weithio yn un o'n hamgueddfeydd eraill, neu wrth wneud gwaith maes. Os yw teithio yn rhwystr i chi ymgeisio, rhwch wybod ac fe allwn ni drafod gofynion mynediad a gwneud addasiadau.

Dyddiadau cwblhau: 10 diwrnod rhwng Mehefin a Medi

Tâl: £14.10 yr awr [1 diwrnodd yw 7 awr]

Dyddiad Cychwyn: Wythnos 8 Mehefin

Er mwyn ymgeisio

Rhaid i chi fod rhwng 16 a 25 oed ac yn byw yng Nghymru.

Mae croeso i chi rannu:

- Ychydig amdanoch chi
- Pam fod gyda chi ddiddordeb yn y rôl
- Profiad bywyd, neu brofiad gwaith / gwirfoddoli perthnasol i'r rôl
- Paragraff byr ar artistiaid posibl yr hoffech eu gwahodd

Gallwch chi lawrlwytho'r ffurflen gais o wefan Amgueddfa Cymru, ei llenwi a'i hanfon at ymgysylltu@amgueddfacymru.ac.uk.

Gallwch chi hefyd wneud cais gyda fideo neu glip sain 2 funud o hyd.

Os ydych chi angen help i lenwi'r ffurflen gais, ffoniwch ni ar [029 2057 3002]

Dyddiad cau ceisiadau: 17 May 2026

Pryd fyddwch chi'n clywed nôl / dyddiad sgwrs anffurfiol: 21 a 22 Mai 2026

Rhaid i ni ddilyn polisi Hawl i Weithio Llywodraeth y DU. Dim ond os oes gennych chi hawl i weithio yn y DU y dylech chi wneud cais. Os nad ydych chi'n siŵr, gallwch chi weld ar dudalennau Hawl i Weithio Llywodraeth y DU (Saesneg yn unig).

Does dim llawer o rolau ar gael, ac felly dim ond ychydig o bobl allwn ni eu galw am sgwrs anffurfiol cyn cynnig y swydd.

Cofiwch y gallwch chi ymuno â Bloedd, rhwydwaith Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru lle rydyn ni'n rhannu mwy o wybodaeth am rolau gyda thâl, digwyddiadau, a gweithdai.